

Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Ward Tawe,

Ysbyty Ystradgynlais,

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad yr arolygiad: 3 a 4 Mai
2017

Dyddiad cyhoeddi: 7 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	24
4.	Beth nesaf?	26
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	27
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ...	28
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	29
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl dirybudd ar Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 3 a 4 Mai 2017. Ymwelwyd â'r safle a'r ward a ganlyn yn ystod yr arolygiad:

- Ysbyty Ystradgynlais, Ward Tawe, Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer oedolion hŷn.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol (yr adolygydd Deddf Iechyd Meddwl enwebedig oedd un o'r rhain) ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennaeth ar gyfer cleifion sydd wedi'i chadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf hon.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015). Lle bo'n briodol, ystyriodd AGIC hefyd sut y mae'r gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ceir mwy o wybodaeth am sut rydym yn cynnal ein harolygiadau ar wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Mae Ysbyty Ystradgynlais yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy i bobl Ystradgynlais a'r cyffiniau. Mae'r ysbyty'n darparu ystod o wasanaethau, sy'n galluogi'r cleifion i fynd i'w hysbyty lleol heb fod angen teithio pellter sylweddol.

Ar y cyfan, cawsom dystiolaeth dda fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Fodd bynnag, canfuom beth tystiolaeth nad yw'r bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal.

Gwnaed newidiadau sylweddol yn Ward Tawe dros y blynyddoedd diwethaf a bydd y gwasanaeth o 1 Mehefin 2017 yn cael ei ddarparu'n llwyr o dan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Yn flaenorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan oedd yn darparu'r gwasanaeth. Cafwyd anawsterau ar y ward o ganlyniad i brinder staff a mynediad at hyfforddiant. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro'r nodweddion sylfaenol hyn yn barhaus er mwyn sicrhau gofal a thriniaethau diogel, effeithiol i gleifion.

Dyma ein canfyddiadau o ran yr hyn a wnaeth y gwasanaeth yn dda:

- Roedd yr holl ryngweithio a welwyd rhwng cleifion a staff yn ystod yr arolygiad yn dda iawn, gan ddangos cwrteisi ac urddas bob amser
- Roedd y staff yn cynorthwyo'r cleifion mewn modd digynnwrf a chyfeillgar
- Cafodd yr holl gleifion eu tacluso a'u gwisgo
- Roedd yr amgylchedd yn daclus ac yn lân iawn ar y tu mewn
- Derbyniodd yr holl gleifion ofal a thriniaeth o ansawdd da
- Cafodd meddyginiaeth ei rheoli'n dda ac roedd ymarfer diogel i'w weld yn amlwg

- Roedd rheolwr y ward yn angerddol ac yn ceisio'i orau i ddarparu gofal a thriniaeth ragorol i'r cleifion ac roedd yn fodel rôl ardderchog i'r staff a'r myfyrwyr

Dyma'r hyn rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth ei wella:

- Roedd angen gwelliannau sylweddol i'r amgylchedd allanol er mwyn ei wneud yn ddiogel ac yn hygyrch i gleifion
- Roedd yr amgylchedd y tu mewn angen ei ddiweddarau ac roedd angen gwaith ailwampio er mwyn hybu diogelwch, preifatrwydd ac urddas i'r cleifion
- Mae angen gwella diogelwch gwybodaeth am gleifion sydd i'w gweld yn y swyddfa nyrsio er mwyn sicrhau cyfrinachedd
- Mae angen monitro tymheredd yr ystafell feddyginiaeth
- Mae angen gwerthuso a gwella trefn cofnodion y cleifion
- Roedd y byrddau gwybodaeth yn cynnwys pinnau bawd a oedd yn risg sylweddol i gleifion a phobl eraill ar y ward
- Mae angen gwella hyfforddiant staff ac arfarnu blynyddol

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn Ward Tawe, Ysbyty Ystradgynlais.

Mae Ward Tawe yn darparu wyth gwely ar gyfer cleifion preswyl, sy'n cynnwys ystafell â phedwar gwely a phedair ystafell sengl gyda thŷ bach a sinc yn gynwysedig. Mae'r ward hefyd yn darparu gwasanaeth ysbyty yn ystod y dydd, sy'n gallu lletya hyd at ddeg claf y dydd. Mae'r gwasanaeth dydd yn amhrisiadwy, gan iddo ddarparu amgylchedd diogel i gleifion gael eu goruchwyllo ac mae'n rhoi seibiant i berthnasau a gofalwyr.

Mae'r gwasanaeth cleifion preswyl a gynigir ar Ward Tawe yn darparu gofal a thriniaeth ar gyfer oedolion hŷn (65+) o'r ddau ryw sy'n profi anhwylderau organig neu weithredol ynghyd â chleifion o dan 65 oed yr oedd ganddynt anhwylder organig.

Ar adeg yr arolygiad, roedd tri chlaf preswyl ar y ward.

Roedd y gwasanaeth yn cyflogi tîm staff a oedd yn cynnwys wyth nyrs iechyd meddwl gofrestrdig gymwys a saith cynorthwydd gofal iechyd, un cynorthwydd gweinyddol a phum aelod ychwanegol o staff yn gweithio gyda'r cleifion yn yr ysbyty dydd. Yn gynwysedig ymysg y dyraniad o nyrsys iechyd meddwl cofrestrdig roedd prif nyrs a dirprwy, a oedd yn darparu arweinyddiaeth ac arweiniad i'r holl aelodau staff. Cefnogir y ward gan un ymgynghorydd meddygol locwm ac un aelod staff locwm ar radd meddyg. Mae cefnogaeth feddygol ychwanegol ar gael o ward feddygol arall yn yr ysbyty a chan feddygon teulu lleol.

Mae gan gleifion Ward Tawe fynediad at ystod o wasanaethau a chefnogaeth arbenigol megis nyrsys arbenigol, gwasanaethau cymdeithasol, seicolegwyr, ffisiotherapydd, a rhwydweithiau cymorth a chefnogaeth arbenigol o'r trydydd sector yn yr ysbyty. Gellid hefyd galw am gymorth nyrsio gan Ward Adelina Patti, sef ward feddygol yn yr ysbyty.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Drwy gydol yr holl arolygiad, roedd cleifion preswyl a chleifion dydd ysbyty yn siarad mewn modd positif a chadarnhaol iawn mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarparwyd ar Ward Tawe. Cawsom wybod fod y staff bob amser yn gyfeillgar a'u bod yn darparu cefnogaeth men modd gofalggar ac urddasol.

Nodwyd gwelliannau o ran yr amgylchedd mewnol ac allanol. Cawsom wybod yn ystod yr arolygiad fod cynlluniau sylweddol ar waith i ailwampio Ward Tawe yn llwyr, gan wella safon yr amgylchedd mewnol ac allanol yn sylweddol er budd y cleifion a'r staff.

Gofynnodd y tîm arolygu am sylwadau'r cleifion ynghylch y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn y ward mewn sgysiau wyneb yn wyneb â'r cleifion a'u perthnasau. Roedd y sylwadau a gafwyd yn ystod yr arolygiad yn cynnwys:

Ni allwn ni fel teulu weld bai ar y staff ar y ward hon.

Mae'n hawdd iawn siarad â'r staff, ac maent yn ein darparu â'r wybodaeth ddiweddaraf ar bethau megis bwyd a diod, neu os oes unrhyw beth arall wedi newid neu godi.

Yr unig feirniadaeth sydd gennym yw'r diffyg cyfleusterau, hynny yw, lolfa ar wahân ar gyfer y teledu. Pan fo cleifion dydd yn bresennol, maent yn treulio'r diwrnod yn yr un ystafelloedd. Gall fod yn anodd i bobl sâl sydd angen amser tawel pan fo gweithgareddau eraill yn cael eu cynnar ar gyfer pobl eraill.

Mae rhai aelodau staff yn well am gynnig gweithgareddau i gleifion; gall fod fymryn yn ddiflas.

Cadw'n iach

Galluogwyd i'r cleifion ar y ward aros yn iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn hybu eu iechyd a'u llesiant. Gwelsom fod deunydd darllen a setiau teledu ar gael yn y lolfa a'r ardaloedd bwyta ar gyfer y cleifion. Ar ein hymweliad, gwnaethom arsylwi cleifion ac aelodau staff yn ymgymryd â gweithgareddau cymdeithasol. Er enghraifft, gwelwyd y cleifion yn ymgymryd â chwis mewn grwpiau bychain. Nodwyd bod y cleifion a oedd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn i'w gweld yn hapus ac yn frwdfrydig.

Cafodd y cleifion preswyl eu hadolygu'n rheolaidd gan yr ymgynghorydd meddygol locwm a'r seiciatryddion gradd staff. Byddai unrhyw newidiadau yng nghyflyrau'r cleifion yn arwain at gynnal adolygiad gan y meddygon a byddai newidiadau i'w gofal a'u triniaeth yn cael eu gwneud unol â hynny.

Roedd Ward Tawe yn cynnwys ardal fwyta/eistedd fawr, ail lolfa â dwy ardal eistedd ar wahân, un ystafell ymolchi, a oedd â digon o gyfleusterau gan gynnwys bath arbennig. Mae gan y ward hefyd ystafell gawod ar gyfer y cleifion. Roedd cyfleusterau tŷ bach dynion a menywod hefyd ar gael. Fel y nodwyd eisoes, roedd tri chlaf preswyl yn y ward. Roedd dau glaf mewn ystafelloedd sengl ac un claf yn cysgu yn yr ystafell pedwar gwely.

Roedd gan y ward ei gardd breifat ei hun yr oedd cleifion yn gallu cael mynediad ati yn y gorffennol, ond, yn anffodus, oherwydd diffyg gwaith cynnal a chadw, nid yw bellach yn briodol i'r cleifion ddefnyddio'r ardd. Cawsom wybod hefyd fod problem yn yr ardd o ran llygod, ac, o'r herwydd, ni chefnogwyd y cleifion i ddefnyddio'r ardd. Roedd gan yr ardd y potensial i fod yn adnodd ardderchog i'r cleifion. Cawsom wybod y byddai'r gwaith ailwampio arfaethedig yn cynnwys creu ardal benodol i'r ardd a fyddai'n ddiogel ac ar gael i'r cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd werthuso a rhoi gwybod i AGIC sut y mae'n bwriadu gwneud ardal yr ardd y tu allan yn ddiogel ac yn hygyrch i gleifion.

Gofal ag urddas

Yn ystod ein harolygiad, yn ddieithriad, canfuom fod y cleifion ar y ward yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff a oedd yn gweithio yno, ac roedd hyn i'w weld yng nghofnodion gofal y cleifion.

Cawsom wybod gan y cleifion a'u perthnasau fod aelodau staff yn glên ac yn eu trin â pharch. Cynorthwywyd y cleifion â'u gofynion o ran hylendid personol ac roedd pob claf i'w weld wedi cael ei drin yn dda ac yn daclus ac mewn dillad priodol bob amser.

Arsylwom y staff nyrsio yn cynorthwyo ac yn rheoli ymddygiad y cleifion er mwyn hybu eu diogelwch a llesiant eu hunain a diogelwch a llesiant y cleifion eraill mewn modd cynnes a gofalggar. Canfuom fod gan ystafelloedd ag wal allanol iddynt fleindiau annigonol yn gorchuddio'r ffenestri a'r drysau. Ar rai drysau, roedd y bleindiau wedi'u torri a defnyddiwyd dillad gwely i orchuddio'r ffenestri, a oedd yn edrych fymryn yn amhroffesiynol. Cawsom wybod i'r bleindiau hyn fod wedi torri ers peth amser ond, yn anffodus, nid oedd unrhyw beth wedi cael ei wneud i wneud iawn am hyn i safon foddhaol. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r bleindiau a ddefnyddiwyd ar ddrysau rhai cleifion er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Gwnaethom ymweld â'r swyddfa nyrsio fel rhan o'r arolygiad a gwnaethom nodi bod bwrdd gwybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth am gleifion, nad oedd yn gwarchod cyfrinachedd y cleifion hynny mewn modd cadarn a diogel. Nid oedd y bwrdd wedi'i orchuddio pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol, ac nid oedd cyfleuster yn ei le i guddio'r wybodaeth trwy ei gau. Cawsom wybod fod perthnasau'r cleifion yn defnyddio'r swyddfa ar adegau i gael sgysiau preifat â'r staff. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wella'r modd y mae'n diogelu gwybodaeth am gleifion drwy'r defnydd o fyrddau gwybodaeth.

Roedd y cleifion yn gallu addurno'u hystafell yn bersonol fel y mynnent. Arsylwom fod gan un claf ffotograffau o'i deulu a'i ffrindiau o amgylch ardal y gwely. Cawsom hefyd wybod gan y staff fod cyn-glaf yn frwdfrydig dros ymarfer corff a'i fod wedi prynu mat ffitrwydd er mwyn gallu cynnal ymarfer corff ym mhreifatrwydd ei ystafell ei hun.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y cynhelir gwaith ar y bleindiau, a hynny'n amserol, er mwyn sicrhau y diogelir preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y diogelir gwybodaeth am y cleifion mewn modd cadarn a chyfrinachol.

Gwybodaeth cleifion

Roedd ystod o wybodaeth ysgrifenedig a phosteri ar gael ar y ward. Roedd gwybodaeth o ran amseroedd ymweld ar gael, ond roedd y staff yn hyblyg o ran perthnasau oedd yn ymweld. Roedd gwybodaeth megis gwasanaethau eirioli

iechyd meddwl annibynnol ar gael â manylion cyswllt. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael ynghylch dementia a chadw'n heini. Roedd y ward wedi dechrau dangos arwyddion gweledol mewn ambell le megis yn y tai bach a'r ystafelloedd ymolchi.

Mae gan y ward system dolen cymhorthydd clyw ar gael. Cawsom wybod gan brif nyrs y ward y defnyddid hwn ond, o holi staff, roedd rhai heb eu perswadio'n llwyr am ei ddefnydd. Gan mwyaf, mae'r bwrdd iechyd yn sicrhau bod holl staff y ward yn gyfarwydd â sut i ddefnyddio'r system er mwyn hybu preifatrwydd ac urddas i'r cleifion ac i'w perthnasau. Roedd sawl cloc yn y ward a oedd yn helpu'r cleifion i gadw llygad ar yr amser.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod holl staff y ward yn gwbl gyfarwydd â defnyddio'r system dolen cymhorthydd clyw.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol ein hymweliad arolygu, gwelsom y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd gofalgwr ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion yn unol â'u henw dewisol. Gwelsom y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd ysgogol a chynhwysol, yn enwedig yn ystod cwisiau gemau bwrdd a thra oedd y cleifion yn cael eu cyfarch ar y ward. Mae gan Ystradgynlais a'r cyffiniau nifer uchel o siaradwyr Cymraeg, ac roedd hyn yn amlwg yn ystod ein hymweliad. Gwelsom lawer o ymgysylltu ymysg cleifion a staff drwy gyfrwng y Gymraeg. Cawsom wybod fod hanner y staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl, a bod hyn yn bwysig i'r cleifion a'u teuluoedd.

Gofal amserol

Gwnaethom arsylwi fod anghenion y cleifion yn cael eu bodloni ar y ward gan y tîm staff. Gan fod tri chlaf preswyl ar y ward yn ystod yr arolygiad, roedd holl gwestiynau'r cleifion, a'u gofal a'u triniaeth, yn cael eu diwallu mewn modd effeithiol ac amserol. Nodwyd bod y ward yn llawer prysurach pan fo cleifion dydd yn bresennol. Cawsom wybod fod y staff cymwys yn darparu meddyginiaeth i'r cleifion a oedd yn dod i'r ysbyty dydd, ac iddynt helpu ag unrhyw broblemau fel bo'r angen. Cawsom wybod gan brif nyrs y ward y cynhaliwyd adolygiad o wasanaeth yr ysbyty dydd, ac y câi ei staffio gan aelod staff cymwys ychwanegol yn y dyfodol, yn hytrach na gan weithwyr cymorth gofal iechyd yn unig. Roedd y bwrdd iechyd wrthi'n hysbysebu yn ystod yr

arolygiad am nyrs gymwys i weithio gan mwyaf yn yr ysbyty dydd, er mwyn gyrru'r gwasanaeth yn ei flaen.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom adolygu agweddau ar gofnodion dau glaf. Roedd ystod dda o asesiadau risg wedi cael eu cynnal, a oedd o gymorth i staff nodi'r gofal a'r driniaeth yr oedd eu hangen. Roedd llawer o wybodaeth ar gael yng nghofnodion y cleifion, ond roedd trefn wael arnynt ac roedd hyn angen ei wella. Nodwyd bod angen adolygu'r ddogfennaeth gan inni ganfod nad oedd asesiadau wedi'u cwblhau yn llawn ag enwau, dynodiad a'r dyddiad y cwblhaodd unigolion yr asesiad. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn llofnodi, yn dyddio ac yn darparu eu dynodiad ar yr holl ddogfennau er mwyn sicrhau atebolrwydd, sy'n elfen hanfodol o '[Y Cod](#): Safonau Ymarfer ac Ymddygiad Proffesiynol ar gyfer Nyrsys a Bydwragedd' y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC sut y mae'n bwriadu sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau asesiadau a dogfennau mewn modd cynhwysfawr, gan sicrhau atebolrwydd.

Hawliau pobl

Cawsom wybod gan y staff fod trefniadau ymweld hyblyg ar waith er mwyn sicrhau y gall aelodau teulu ymweld â'r ward a bod yn rhan lawn o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu perthnasau. Eglurodd y staff hefyd fod y trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod yr opsiynau bwyd ar gael i gleifion eraill yn cadw at eu hoffterau unigol.

Roedd y cleifion yn gallu cwrdd â theulu a ffrindiau naill ai yn eu hystafell neu yn un o'r lolfeydd/ardaloedd bwyta. Cawsom wybod fod y cleifion yn defnyddio swyddfa'r nyrsys os oeddent angen defnyddio'r ffôn.

Gwranddo ar adborth a dysgu ohono

Yn dilyn trafodaethau â phrif nyrs y ward, nodwyd nad oedd unrhyw gwynion/bryderon wedi dod i sylw'r gwasanaeth gan glaf neu berthynas/cynrychiolydd claf ers peth amser. Daeth y gŵyn ddiwethaf i law ynghylch Ward Tawe ym mis Awst 2014. Gwelsom y wybodaeth a oedd ar gael ac yn cael ei dangos ar y byrddau arddangos yn y ward a'r ysbyty fel y gallai

cleifion, eu perthnasau a'u hymwelwyr weld y dull ar gyfer cwyno, ac roedd yn cynnwys manylion cyswllt. Nodwyd hefyd fod y wybodaeth ar gael ynghylch gwasanaethau eirioli, y gellid cael mynediad atynt os oedd y cleifion/perthnasau am nodi pryder/cwyn yn allanol i'r bwrdd iechyd.

Gwelwyd bocsys adborth ac argymhellion yn yr ysbyty, ond nid oeddent i'w cael ar Ward Tawe.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y tîm staff yn frwdfrydig ac yn ymroddgar i ddarparu gofal diogel ac urddasol. Roedd cyfarpar arbenigol ar gael yn rhwydd, ac fe'i defnyddid i atal y cleifion rhag datblygu cymhlethdodau megis niwed i fannau gwasgu.

Roedd y staff yn ofalus yn eu dull o sicrhau y câi allanfeydd y ward eu cau a'u cloi er mwyn diogelu'r cleifion.

Nodwyd gwelliannau o ran yr amgylchedd yn fewnol ac yn allanol, a oedd yn cynnwys ambell beth i'w drwsio a'i ffitio. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a gwerthuso amgylchedd y ward yn barhaus er mwyn sicrhau y diogelir y cleifion cymaint ag y bo modd rhag risgiau y gellid bod wedi'u rhagweld a'u hosgoi.

Gofal diogel

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Cawsom wybod y cynhelir asesiadau o'r amgylchedd yn rheolaidd o ran clymau a'r modd y'i rheolir. Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw gyfarpar i dorri clymau ar gael yn y ward yn ystod ein hymweliad. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan y ward y cyfarpar angenrheidiol er mwyn sicrhau iechyd a llesiant y cleifion.

Gwelsom ystafell ymolchi'r ward, ac roedd yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol i ddarparu gofal diogel ar gyfer y cleifion wrth iddynt ddefnyddio'r bath. Roedd y teclynnau codi a welwyd wedi cael eu profi ac roeddent oll yn gweithio. Roedd clychau i alw nyrsys ar gael yn rhwydd a da o beth oedd nodi nad oedd modd i'r cordiau tynnu i ganu'r gloch yn yr ystafell ymolchi a'r ystafelloedd cawod gael eu clymu gan osgoi unrhyw glymau posibl.

Yn ystod ein hymweliad, cynhaliom adolygiad o'r amgylchedd mewnol. Gwnaethom nodi bod ystod dda o wybodaeth ar gael ar rai o'r byrddau hysbysu a'r cabinets, a oedd yn hybu addysg iechyd ac yn ei hyrwyddo. Roedd gan fwrdd arall gardiau post lliwgar a phethau yr oedd y cleifion a'r staff wedi'u creu. Roedd peth o'r wybodaeth/pethau ar y byrddau hysbysu yn cael eu dal yno gyda phinnau bawd. Gwnaethom nodi y gallai defnyddio'r pinnau bawd hyn achosi niwed sylweddol i gleifion pe caent eu bwyta neu eu defnyddio i hunan-

niweidio. Dygwyd hyn i sylw prif nyrs y ward a chafwyd gwared ar yr holl bethau a oedd yn cael eu dal â phinnau bawd. Dywedom fod ffyrdd eraill o ddangos gwybodaeth a fyddai'n sicrhau diogelwch y cleifion.

Yn ystod ein harolygiad o'r ystafell pedwar gwely, nodwyd bod cypyrddau cadw y cleifion yn dangos potensial i'r cleifion atodi cwlwm gan fod handlen hanner cylch ar y cypyrddau. Roedd yr holl ystafelloedd gwely sengl wedi cael eu haddurno â dodrefn a oedd yn lleihau risg hunan-niweidio. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn gwerthuso'r ardal yn ofalus er mwyn lleihau'r risgiau posibl i gleifion â bwriad o niweidio'u hunain. At hynny, gwnaethom nodi yn un o'r ystafelloedd hyn fod drych yr ystafell ymolchi wedi cracio. Roedd hyn yn risg posibl i'r cleifion gan y gellid ei ddefnyddio fel modd o hunan-niweidio neu niweidio cleifion eraill a staff. Dygwyd y mater hwn i sylw rheolwr y ward a'r uwch-reolwyr yn ystod y sesiwn adborth. Dywedwyd wrthym y byddai hyn yn cael ei wirio ar unwaith.

Mae Ward Tawe yn ward wedi'i chloi, ac mae mynediad ati drwy banel â chod wrth fynd i mewn i'r ward. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom yr holl staff a'r cleifion yn gofalu am ddiogelwch y cleifion drwy gloi'r drysau pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Gwnaethom nodi bod y drws mynediad angen ychydig o waith cynnal a chadw peth amser yn ôl gan ei fod wedi torri gynt. Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom nodi ei fod bellach yn gweithio ond nid oeddem yn teimlo ei fod yn gwbl ddiogel gan ei fod yn teimlo fymryn yn fregus a, phe defnyddid ychydig o rym, ni wyddys a fyddai'r drws yn sefyll yn gadarn. Dywedwyd wrthym fod posibilrwydd o gael drysau newydd. Nodwyd hefyd fod bwll rhwng y drysau a allai fod yn risg tân bosibl. Dywedodd y prif nyrs wrthym fod y swyddog tân yn ymwybodol o'r materion ynghylch y drysau. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y drysau mynediad ar Ward Tawe yn addas at y diben ac yn sicrhau iechyd a diogelwch y cleifion a'r staff ar y ward.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod offer i dorri clymau ar gael yn rhwydd i staff er mwyn iddynt sicrhau iechyd a llesiant y cleifion.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal gwerthusiad o'r dodrefn a ddefnyddir yn y gwasanaethau iechyd meddwl er mwyn lleihau'r ffynonellau posibl a all beri risg i'r cleifion.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl waith trwsio a ffitio wedi cael ei wneud yn briodol er mwyn hybu diogelwch y cleifion a'r staff.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drysau mynediad Ward Tawe yn

sicrhau iechyd a diogelwch y cleifion/perthnasau a'r staff ar y ward.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y cedwid yr holl ardaloedd o'r ward i safon hylendid dda. Ar y cyfan, prif nyrs y ward oedd â chyfrifoldeb dros atal a rheoli heintiau.

Gwelsom y staff domestig yn ymgymryd â'u dyletswyddau mewn modd gofalgar a systematig. Roedd y staff domestig ar gael ar y ward o 7am tan 7pm bob dydd. Roedd yr holl declynnau codi a chomodau a ddefnyddiwyd i'w gweld yn lân iawn, ac roedd bandiau arnynt yn nodi pryd a gan bwy y cawsant eu dadlygru. Cafwyd gwared ar ddillad budron yn unionyrchol o'r ystafell olchi drwy'r ardaloedd cyhoeddus, yn hytrach na'u dychwelyd drwy amgylchedd y ward, gan ddangos felly arfer da o ran rheoli heintiau. Nid oedd unrhyw ddeunyddiau glanhau a ddefnyddiwyd gan y staff domestig yn cael eu cadw ar y ward. Cafodd teclynnau meddygol megis offer monitro pwysau gwaed eu glanhau'n briodol a gwelwyd yr amserlen ar gyfer eu dadlygru. Cafwyd gwared ar offer miniog mewn modd diogel ac effeithiol, a soniwyd wrthym am y broses gyfan gan brif nyrs y ward.

Roedd hysbysiadau yn hyrwyddo glanhau dwylo mewn modd clir a chywir i'w gweld drwy gydol y ward. Roedd dosbarthwyr sebon hylifol ar gael hefyd. Gwelsom fod offer personol ac offer diogelu ar gael yn rhwydd ar y ward i'r staff gadw safonau da wrth atal a rheoli heintiau.

Gwelsom yr amserlenni glanhau domestig, a oedd yn glir, yn gryno ac i'w cael yn swyddfa'r nyrsys. Gwelwyd y credydau ar gyfer archwiliadau glanhau yn ystod yr arolygiad, ac fe'u cynhaliwyd yn rheolaidd a nodwyd bod gwaith da o reoli ac atal heintiau i'w weld yn glir, a nodwyd y meysydd yr oedd angen eu gwella.

Roedd polisiâu rheoli heintiau ar gael ar y we. Cawsom wybod bod y bwrdd iechyd yn y broses o addasu'r polisi i'w wneud yn gyson â pholisiâu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys gan mai polisi Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg oedd ar waith yn flaenorol.

Nid oedd y wybodaeth angenrheidiol ar gyfer rheoli ac atal heintiau wedi'i diweddarau ar gyfer yr holl staff. Cawsom wybod mai prinder staff oedd y rheswm dros hyn, ac anallu ambell aelod staff i ddefnyddio'r pecyn e-ddysgu sydd ar gael o ganlyniad i'r newid o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd

werthuso'r agwedd hon ar hyfforddiant a datblygiad staff ar fyrder er mwyn hybu arfer gorau a diogelu llesiant y cleifion a'r staff.

Roedd ambell sedd a ddefnyddid yn swyddfa'r nyrsys a gan gleifion â rhwygiadau arni. Roeddent yn bygwth risg o ran rheoli heintiau i'r cleifion a'r staff. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl seddi'n cael eu cadw i safon briodol a'u bod yn addas at y diben, er mwyn diogelu'r cleifion a'r staff cyn belled ag y gellir rhag ffynonellau heintiau y gellid eu hosgoi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn derbyn hyfforddiant gorfodol i atal a rheoli heintiau mewn modd amserol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl seddi a ddarperir yn addas at y diben a sicrhau safonau da o ran atal heintiau.

Maeth a hydradu

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y cleifion yn cael eu darparu'n aml â diodydd. Roedd gan y ward gegin fach a oedd yn galluogi'r staff i ddarparu diodydd poeth ac oer i'r cleifion mewn modd amserol. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom bryd bwyd amser cinio a nodwyd bod y prydau a ddarparwyd i'w gweld yn flasus ac yn faethlon. Darparwyd dewisiadau o wahanol brydau i'r cleifion preswyl. Yn ystod y pryd amser cinio, gwelsom fod cleifion yr ysbyty dydd yn eistedd mewn grwpiau bach o amgylch byrddau. Gwelwyd staff yn cynorthwyo'r cleifion fel y bo'n briodol mewn modd gofalgar ac urddasol. Nodwyd bod y cleifion yn bwyta'r prydau'n sydyn, a wnaeth i'r cyfnod bwyta hwn deimlo'n fwy o orchwyl yn hytrach na chyfle i gymdeithasu. Dylai'r bwrdd iechyd hybu amseroedd bwyta i fod yn achlysuron cymdeithasol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd safon y gwaith o reoli meddyginiaethau ar y ward yn dda ar y cyfan. Cafodd meddyginiaethau eu cadw'n ddiogel. Nid oedd y troli meddyginiaeth â gormod arno, ac roedd y meddyginiaethau'n cael eu cadw mewn trefn systematig.

Gwelsom gofnodion gweinyddu meddyginiaethau ac roeddent yn cael eu cadw i safon uchel. Gwelsom nad oedd bylchau o ran llofnodion. Gwelsom gofnodion fod oergell a ddefnyddid i gadw meddyginiaethau yn cael ei monitro'n ddyddiol, a gwelwyd bod y tymheredd o fewn yr ystod ofynnol. Gwnaethom nodi nad oedd ystafell y meddyginiaethau'n cael ei monitro'n ddyddiol o ran ei thymheredd. Gall ambell feddyginiaeth ddechrau mynd yn ddrwg os yw'r

tymheredd dros 25C. Cawsom wybod gan staff ar ddiwrnod yr arolygiad y gall yr ystafell fod yn gynnes iawn o bryd i'w gilydd. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymheredd yr ystafell yn cael ei gofnodi ac y rhoddir mesurau ar waith os yw'r tymheredd dros 25C.

Cawsom wybod, os câi'r cleifion feddyginiaeth newydd wedi'i rhagnodi iddynt nad oedd yn cael ei chadw ar y ward, y byddai staff yn gallu caffael y feddyginiaeth ddynodedig drwy ddefnyddio'r system rheoli meddyginiaethau awtomatig a oedd ar gael yn yr ysbyty. Roedd yr offeryn rheoli meddyginiaethau awtomatig (Omnicell) yn cael ei gadw'n dda, ac fe'i defnyddid mewn modd diogel iawn, a oedd yn golygu y gellid sicrhau archwilio clir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff tymheredd yr ystafell feddyginiaeth ei fonitro'n ddyddiol.

Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom wybodaeth yn ymwneud â phrosesau diogelu oedolion. Roedd y staff a gawsant eu holi yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os ydynt yn pryderu am lesiant oedolion ar y ward. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i hybu'r syniad o ddiogelwch a llesiant oedolion.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dywedodd y cleifion y siaradom â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty, a dywedodd y staff y siaradom â nhw nad oedd ganddynt unrhyw bryder o ran diogelwch. Roedd y bwrdd iechyd wedi cynnal archwiliadau rheolaidd o ran peryglon, ac roedd hwn yn faes ymarfer a gafodd ei adolygu'n rheolaidd. Cynhaliwyd archwiliadau ac adolygiadau wedi'u harwain gan ymgynghorydd meddygol yn rheolaidd, ac roedd y rhain wedi'u dogfennu yn briodol yng nghofnodion y cleifion.

Ar y cyfan, cawsom fod iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion yn cael eu diogelu. Roedd y ward yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod ac roedd yr aelodau staff yn ofalus i sicrhau y gwarchodid diogelwch y cleifion. Roedd pob ardal yn ddiogel rhag posibiladau o gael codwm.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom y cynhelid archwiliadau o'r ward i fodloni'r cleifion a'r perthnasau o ran y gofal a'r driniaeth a ddarperir ar Ward Tawe. Roedd y wybodaeth a welwyd yn cadarnhau bod y cleifion a'u perthnasau yn hapus iawn â'r gwasanaethau a ddarperir. Nodwyd bod y cleifion a'u perthnasau yn gallu siarad ag unrhyw aelod staff neu brif nyrs y ward i drafod unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu gofal neu driniaeth. Pwysleisiwyd nad oedd gan y ward unrhyw ffyrdd ffurfiol o adrodd ar welliannau a wnaed neu a weithredwyd o ganlyniad i'r adborth a gafwyd. Roedd prif nyrs y ward yn frwdfrydig i sicrhau y cyflëir gwybodaeth i'r teuluoedd o ran y gofal a'r driniaeth a ddarperir, gan wrando ar unrhyw ymholiadau neu bryderon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC sut y mae'n bwriadu gwerthuso'r adborth a geir gan gleifion ac aelodau o'r cyhoedd a sut y mae'n bwriadu cadw pobl yn ymwybodol o sut mae'r adborth hwn wedi cael ei ddefnyddio mewn modd adeiladol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd holl gofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar ffurf papur. Roedd y polisiâu a'r gweithdrefnau ar gael ar ffurf papur neu ar y we, ac roedd y staff yn gallu defnyddio'r cyfrifiaduron ar gael ar y ward.

Cadw cofnodion

Cedwir copïau caled o gofnodion y cleifion ar Ward Tawe. Pwysleisiwyd bod angen gwelliannau er mwyn gwneud cofnodion y cleifion yn hawdd i'w defnyddio. Roedd y ffeiliau a ddefnyddid gan y staff yn hynod o drwm a heriol i'w defnyddio; roedd y gwaith ffeilio yn anghyson. Mewn rhai ardaloedd, gwnaethom nodi bod cofnodion y cleifion wedi cael eu lleoli o fewn dogfennau eraill, a wnaeth y gwaith o ddarllen y dogfennau'n hynod o bytiog. Gwnaeth hyn y gorchwyl o ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol ynghylch gofal yn anodd ac yn llafurus ac y byddai'n heriol i unrhyw un sy'n darparu gofal i grŵp o gleifion nad oedd yn gyfarwydd â'r ddogfennaeth, megis staff cronfa neu asiantaeth newydd. Gyda chefnogaeth staff y ward, roeddem yn gallu dod o hyd i'r rhan fwyaf o'r dogfennau ynghylch gofal. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd werthuso sut y mae'n trefnu cofnodion cleifion er mwyn iddynt fod yn hawdd i'w defnyddio ac yn gynhwysfawr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd werthuso'n ofalus sut y mae'n trefnu cofnodion cleifion, er mwyn sicrhau y cânt eu strwythuro a'u cadw i safon foddhaol.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cadw statudol ar gyfer y cleifion ar draws y ward.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau statudol ar gyfer Ward Tawe, a nodwyd y materion a ganlyn.

Nid oedd copïau o ddogfennau Deddf Iechyd Meddwl a graffwyd gan AGIC ar gael yng nghofnodion y cleifion ar Ward Tawe. Roedd yr holl ddogfennau Deddf Iechyd Meddwl, unwaith yr oeddent wedi'u derbyn a'u craffu, yn cael eu cadw yn swyddfa Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl ym Mronllys, ym Mrycheiniog.

Nodwyd nad oedd unrhyw ffurflen strwythuredig ar gael i gefnogi'r staff wrth esbonio'r hawliau yn y Ddeddf Iechyd Meddwl i'r cleifion ac i gofnodi'r broses yn ffurfiol. Nid oedd y pamffled ynghylch hawliau ar gael yn Gymraeg ychwaith.

Gwnaethom nodi yr ymwelwyd â'r claf gan feddyg wedi'i benodi i gynnig ail farn. Nid oedd unrhyw gofnod o drafodaethau'r doctor hwnnw gyda chlinigydd cyfrifol neu ymgynghoreion. Nid oedd y cofnodion yn nodi a oedd gan y claf asesiad galluedd i roi gwybod a oedd gan y claf y galluedd meddyliol i ddeall diben ymweliad y meddyg hwnnw. Nid oedd cofnodion y cleifion yn cynnwys ychwaith gwybodaeth yn cadarnhau bod y claf wedi cael clywed am ganlyniad ymweliad y meddyg.

Adolygwyd yr awdurdodaeth ymadael o dan Adran 17. Nid oedd y ddogfennaeth ymadael yn cynnwys gwybodaeth yn nodi a oedd Gorchmynion Triniaeth Gymunedol wedi cael eu hystyried. Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu ei ffurflen ymadael Adran 17 a chynnwys gwybodaeth o ran y gorchmynion hyn.

Ar adeg yr ymweliad, nid oedd y Gweinyddwr Iechyd Meddwl yn bresennol yn ystod yr arolygiad. Cawsom wybod nad oedd y Gweinyddwr Iechyd Meddwl yn ymweld â'r ward yn rheolaidd ac, o'r herwydd, nad oedd y cyswllt rhwng staff y ward a'r gweinyddwr ar ei orau, fel y gellid ei ddisgwyl. Rydym yn argymhell i'r

bwrdd iechyd adolygu ei berthynas waith er budd y cleifion a'r staff sy'n darparu'r gofal a'r driniaeth

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y pamffled ynghylch hawliau'r cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu ffurflen ymadael Adran 17 i gynnwys gwybodaeth ynghylch Gorchmynion Triniaeth Gymunedol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl drafodaethau â'r meddyg sydd wedi'i benodi i gynnig ail farn yn cael eu dogfennu mewn ffeil.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gleifion perthnasol yn derbyn gwybodaeth ynghylch canlyniad ymweliad y meddyg sydd wedi'i benodi i gynnig ail farn, ac i'r wybodaeth hon gael ei dogfennu yng nghofnodion y cleifion.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau galluedd meddyliol i roi gwybod a oes gan y cleifion y galluedd i ddeall diben ymweliad y meddyg sydd wedi'i benodi i gynnig ail farn eu dogfennu yn y cofnodion.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal ar gyfer cyfanswm o ddau glaf.

Ar y cyfan, roedd gwybodaeth dda ar gael mewn perthynas â chynllunio gofal. Fel y nodwyd eisoes, roedd gwybodaeth yn anodd ei chanfod gan nad oedd y cofnodion wedi'u trefnu. Cynhaliwyd asesiadau iechyd corfforol ar gyfer y cleifion.

Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn glir, ac wedi'u teipio. Nodwyd bod ymyriadau yn briodol i ofynion y cleifion. Gwnaethom nodi bod cleifion yn derbyn copi o'r cynllun gofal a thriniaeth, ond nad oeddent wedi arwyddo i gytuno i'w gynnwys.

Roedd y cynlluniau gofal yn mynd i'r afael â'r agweddau ar fywyd a nodir yn y Mesur Iechyd Meddwl. Pennwyd cydlynwyr gofal i'r cleifion. Aseswyd gofynion dietegol y cleifion drwy ddefnyddio'r siart cofnodi bwyd Cymru gyfan. Cafodd pwysau'r cleifion hefyd eu monitro'n rheolaidd. Gwelwyd tystiolaeth hefyd a oedd yn cadarnhau bod cefnogaeth wedi'i darparu gan deuluoedd i ddatblygu ac adolygu cynlluniau triniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennau ar gael i nodi bod y cleifion wedi cytuno a llofnodi'r cynllun gofal a thriniaeth.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys amryw ffurflenni ar gael i gofnodi asesiadau galluedd. Nodwyd bod y gwaith awdurdodi o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi cael ei gwblhau.

Gwnaethom nodi nad oedd yr asesiadau o alluedd ar gyfer cael derbyn i'r ysbyty o dan Adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn bresennol yn y cofnodion a welwyd. Fodd bynnag, gwnaed cyfeiriadau gan y gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol a gymeradwywyd mewn nodiadau o drafodaethau gydag ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o alluedd cleifion yn cael eu dogfennu'n llawn yng nghofnodion y cleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Ar y cyfan, roedd Ward Tawe yn cael ei rheoli'n dda gan brif nyrs frwdfrydig y ward a'r dirprwy. Gwnaethom nodi y byddai gwella cydweithio a gwelededd y Gweinyddwr Iechyd Meddwl yn helpu â'r gwaith o rannu gwybodaeth a chydweithio.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom nodi bod niferoedd digonol o staff yn bresennol i fodloni anghenion iechyd y cleifion ar y ward. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro'r lefelau staffio'n barhaus mewn cysylltiad uniongyrchol â'r anghenion a'r gofynion yr asesir sydd gan gleifion.

Nodwyd gwelliannau hefyd o ran hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff ac arfarniadau blynyddol amserol. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd werthuso'r meysydd hyn o reoli staff er mwyn hybu dysgu a datblygu'r staff a sicrhau y caiff y cleifion y gofal a'r driniaeth ddiweddaraf, a hynny'n unol ag arfer gorau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd yn galonogol nodi drwy gydol yr ymweliad fod staff Ward Tawe yn ymatebol i'n sylwadau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda iawn ar y ward gan y brif nyrs a'r dirprwy. Soniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol ynghylch y tîm amlddisgyblaeth sy'n gweithio yn y ward a'r ysbyty. Roedd gan Ward Tawe gysylltiadau da ag adrannau iechyd corfforol o fewn Ysbyty Ystradgynlais a'r bwrdd iechyd yn ehangach.

Nodwyd bod nifer o bolisiâu a gweithdrefnau yn berthnasol i'r adeg pan reolir y gwasanaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg. Roedd gwasanaeth Ward Tawe wedi cael ei ddarparu gan Fwrdd Iechyd Addysgu

Powys ers blwyddyn a hanner. Dywedodd y staff fod cael gwahanol bolisiâu bwrdd iechyd yn gallu peri dryswch ar adegau, a'i bod yn anodd canfod y wybodaeth sydd ei hangen. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gwbl ymwybodol lle y gallent gael gfael ar y wybodaeth sydd ei hangen a darparu cynllun gweithredu yn nodi pryd y bydd yr holl bolisiâu a gweithdrefnau sydd ar waith yn dod yn gyfrifoldeb llawn gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn deall yn glir lle y gallent gael gfael ar y polisiâu a'r gweithdrefnau perthnasol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu AGIC â chynllun gweithredu'n nodi pryd y bydd yr holl bolisiâu a gweithdrefnau ar waith yn cael eu hintegreiddio'n llawn i ddogfennau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Roedd gan Ward Tawe brif nyrs barhaol a oedd yn rheoli'r ward, a gefnogwyd gan ddirprwy a thîm sefydledig o nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Nodwyd y cafwyd anawsterau o ran staffio ar y ward oherwydd prinder staff. Cawsom wybod bod pedair swydd wag ar gyfer lefel nyrs gymwys ar sail amser llawn. Cawsom hefyd wybod bod dwy swydd wag ar y ward ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd ar sail 28 awr yr wythnos. Am y rhesymau hyn, defnyddiwyd staff cronfa yn rheolaidd ar y ward. Nododd prif nyrs y ward fod gadael i staff ymgymryd â hyfforddiant a datblygu yn anodd oherwydd y prinder staff.

Nodwyd bod angen gwelliannau o ran staff yn derbyn arfarniadau blynyddol. Roedd ychydig o'r staff hefyd heb dderbyn hyfforddiant gorfodol yn amserol megis hyfforddiant trin â llaw a rheoli heintiau. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant gorfodol yn amserol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn derbyn arfarniadau blynyddol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant gorfodol yn amserol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG fel arfer yn ddirybudd. Byddwn yn cynnal arolygiadau dirybudd bob tro er mwyn caniatáu inni weld y gwasanaethau yn y ffordd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd o flaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, a hynny mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n briodol. Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal yng ngwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir mwy o fanylion am sut y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwnaethom nodi y defnyddid pinnau bawd i ddal dogfennau a gwybodaeth ar fyrddau arddangos.	Roedd hyn yn risg sylweddol i iechyd a llesiant y cleifion a phobl eraill yn y ward.	Rhoesom wybod i brif nyrs y ward ar unwaith.	Cafwyd gwared ar yr holl ddogfennau a gafodd eu dal gan binnau bawd.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Ystradgynlais, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ward: Ward Tawe

Dyddiad yr arolygiad: 3 a 4 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad ei bod yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith.				

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Ystradgynlais, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ward: Ward Tawe

Dyddiad yr arolygiad: 3 a 4 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd werthuso a rhoi gwybod i AGIC sut y mae'n bwriadu gwneud ardal yr ardd y tu allan yn ddiogel ac yn hygyrch i gleifion.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae ardal yr ardd yn rhan o'r prosiect adnewyddu mawr, sy'n rhan o'r drafodaeth achos busnes parhaus â Llywodraeth Cymru.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau ac Eiddo	Yn amodol ar gyllid Llywodraeth Cymru; os yw darpariaeth y cynllun yn debygol o bara dros 12 mis, bydd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
				angen ystyried datrysiad dros dro yn amodol ar gyllid.
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y cynhelir gwaith cynnal a chadw ar fleinds yn ystafelloedd y cleifion yn amserol er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion.</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am gleifion wedi'i diogelu mewn modd cadarn a chyfrinachol</p>	4.1 Gofal ag urddas	<p>Angen archebu a ffitio rheiliau llenni i ddiogelu urddas y cleifion a rhoi preifatrwydd yn eu hystafelloedd.</p> <p>Mae'n rhaid diogelu'r wybodaeth yn y swyddfeydd. Mae bleindiau magnetig wedi cael eu harchebu er mwyn diogelu'r wybodaeth ar y bwrdd yn swyddfeydd y ward.</p>	<p>Yr Uwch Nyrs ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Hŷn</p> <p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau ac Eiddo</p> <p>Yr Uwch Nyrs ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Hŷn</p>	<p>Gorffennaf 2017</p> <p>Gorffennaf 2017</p>
Mae'n rhaid i'r bwrdd sicrhau bod yr holl staff gofal yn gwbl gyfarwydd â systemau	4.2 Gwybodaeth cleifion	Mae'r holl staff (gan gynnwys staff cronfa a staff newydd) yn gyfarwydd â'r	Prif Nyrs y Ward	Cwblhawyd Mehefin 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cymorthyddion clyw.		defnydd o gymorthyddion clyw. Sesiwn gynefino'r ward i gynnwys y defnydd o system cymorthyddion clyw.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC sut y mae'n bwriadu sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau asesiadau a dogfennau mewn modd cyflawn, gan sicrhau atebolrwydd.	6.1 Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth	<p>Mae'r Uwch Nyrs ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Hŷn wedi dosbarthu'r Cod ar gyfer Safonau Ymarfer ac Ymddygiad Proffesiynol Nyrsys a Bydwagedd i'r staff.</p> <p>Cynllun Gofal a Thriniaeth mewnol ac archwiliad cadw cofnodion gan yr Uwch Nyrs.</p> <p>Rhaglen hyfforddi Cynllun Gofal a Thriniaeth i gael ei gweithredu gan Iechyd Meddwl ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.</p>	<p>Uwch Nyrs ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Hŷn</p> <p>Uwch Nyrs ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Hŷn</p> <p>Arweinydd Clinigol ar gyfer Ansawdd a Diogelwch (Iechyd Meddwl)</p>	<p>Cwblhawyd Mehefin 2017</p> <p>Gorffennaf 2017</p> <p>Medi 2017</p>
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod torwyr	2.1 Rheoli risg a	Bydd gan bob uned cleifion preswyl	Uwch Nyrs ar	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>clymau ar gael yn rhwydd i'r staff er mwyn sicrhau iechyd a llesiant y cleifion.</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal gwerthusiad o'r dodrefn a ddefnyddiwyd mewn gwasanaethau iechyd meddwl er mwyn lleihau'r ffynonellau posibl o risg i gleifion.</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl waith trwsio a ffitio wedi cael ei wneud yn briodol er mwyn hybu diogelwch y cleifion a'r staff.</p>	hybu iechyd a diogelwch	<p>Iechyd Meddwl Pobl Hŷn ym Mhowys fynediad at dorwyr clymau. Mae archebion wedi'u gwneud.</p> <p>Cymerwyd y camau gweithredu a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Archwiliadau gwrth-glymau a gwblhawyd ar wardiau Clywedog, Crug a Felindre. - Cynnal asesiad risg iechyd a diogelwch ar Ward Tawe - Cynnal asesiad risg ar gypyrddau cadw'r cleifion ar Ward Tawe yn unol ag angen unigol nes y ceir cypyrddau gwrth-glymau. - Cael gwared ar y drych wedi torri ar unwaith - Cael gwared ar y goleuadau ar y waliau yn ardaloedd yr 	<p>gyfer Iechyd Meddwl Pobl Hŷn</p> <p>Uwch Nyrs ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Hŷn</p>	<p>Mehefin 2017</p> <p>Cwblhawyd Mehefin 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y drysau mynediad ar Ward Tawe yn sicrhau iechyd a diogelwch y cleifion/perthnasau a'r staff ar y ward.</p>		<p>ystafelloedd gwely, a rhoi ffitiadau gwrth-glymau yn eu lle.</p> <p>Mae drysau mynediad Ward Tawe wedi cael eu newid.</p>	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau ac Eiddo</p>	<p>Cwblhawyd Mai 2017</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn amserol.</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl seddi yn addas at y diben a sicrhau safonau da o ran atal heintiau.</p>	<p>2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio</p>	<p>Cynllun gwella a chydymffurfio â hyfforddiant gorfodol wedi cael ei ddatblygu. Yr Uwch Nyrs ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau i ddatblygu hyfforddiant wedi'i deilwra i staff iechyd meddwl.</p> <p>Y gwasanaethau iechyd meddwl i ddilyn polisi a gweithdrefn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar gyfer cynnal a chadw a phrynu dodrefn newydd. Archebwyd seddi newydd.</p>	<p>Uwch Nyrs ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Hŷn</p> <p>Uwch Nyrs Atal a Rheoli Heintiau</p> <p>Uwch Nyrs ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Hŷn</p>	<p>Medi 2017</p> <p>Cwblhawyd Mehefin 2017</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff tymheredd yr ystafell feddyginiaeth ei fonitro'n ddyddiol.</p>	<p>2.6 Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Archebwyd thermomedr. Mae Polisi Meddyginiaethau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn amlinellu'r broses os</p>	<p>Prif Nyrs y Ward</p>	<p>Cwblhawyd Mehefin 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		yw'r tymheredd yn rhy boeth neu'n rhy oer.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC sut y mae'n bwriadu gwerthuso adborth a geir gan gleifion ac aelodau o'r cyhoedd a sut y mae'n bwriadu cadw pobl yn ymwybodol o sut mae wedi defnyddio'r adborth hwn mewn modd adeiladol.	3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi	<p>Gwahoddir adborth defnyddwyr y gwasanaeth drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Holiaduron boddhad profiad ar Ward Tawe - System monitro'r Safonau Iechyd a Gofal - Hunanasesiad o'r Safonau Iechyd a Gofal - Storiâu cleifion - Cwynion, pryderon a chanmoliaeth - Grwpiau a fforymau i ofalwyr - 'Engage to Change' (isbwyllgor o'r Bwrdd Partneriaeth Cynllunio a Datblygu Iechyd Meddwl) - Adborth wedi'i gasglu gan y Rheolwr Busnes ar gyfer Iechyd Meddwl ac arweinwyr y gwasanaeth. <p>Caiff gwybodaeth ei dangos yn y ward i</p>	Prif Nyrs y Ward Rheolwr Partneriaeth	Cwblhawyd Mai 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		staff, cleifion ac ymwelwyr.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd werthuso'n ofalus sut y mae'n trefnu cofnodion y cleifion, er mwyn sicrhau y cânt eu strwythuro a'u cynnal i safon foddhaol.	3.5 Cadw cofnodion	Adolygu'r trefniadau cadw cofnodion â'r Rheolwr Gweinyddu a'r Rheolwr Tîm Clinigol Integredig.	Uwch Nyrs ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Hŷn Rheolwr Tîm Clinigol Integredig	Awst 2017
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y pamffled ynghylch hawliau'r cleifion o dan y gwasanaethau iechyd meddwl ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Mae'r holl unedau cleifion preswyl a thimau cymunedol iechyd meddwl wedi cael gwybod am y wefan http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=816 y gallant ei defnyddio i gael mynediad at a phrintio'r pamffledi perthnasol. Asesir cydymffurfiaeth fel rhan o'r rhaglen barhaus o archwiliadau.	Pennaeth Gofal Cymhleth a Heb ei Drefnu	Archwiliad cydymffurfiaeth i'w gynnal cyn Ionawr 2018
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ffurflen ymadael Adran 17 i gynnwys gwybodaeth mewn		Ail-ddylunio fformat y ffurflen ymadael Adran 17, gan gynnwys gwybodaeth mewn perthynas â Gorchmynion	Pennaeth Gofal Cymhleth a Heb	Mehefin 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>perthynas â Gorchmynion Triniaeth Gymunedol.</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod holl drafodaethau'r meddygon a benodwyd i roi ail farn â meddygon neu ymgynghorwyr meddygol yn cael eu dogfennu ar gofnod.</p> <p>Mae'n rhaid darparu'r wybodaeth ynghylch canlyniadau ymweliad y meddygon a benodwyd i roi ail farn i'r cleifion, ac mae'n rhaid i'r wybodaeth hon fod yng nghofnodion y cleifion.</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau iechyd meddwl yn rhoi gwybod a oes gan y cleifion y galluedd i ddeall diben ymweliad y meddygon a benodwyd i roi ail farn, a hynny'n cael ei ddogfennu ar gofnod.</p>		<p>Triniaeth Gymunedol.</p> <p>Darparu sesiynau hyfforddi i'r holl staff meddygol yn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu ynghylch gofynion meddygon a benodwyd i roi ail farn.</p>	<p>ei Drefnu</p> <p>Pennaeth Gofal Cymhleth a Heb ei Drefnu / Cyfarwyddwr Clinigol</p>	<p>Gorffennaf 2017</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennau ar gael i nodi bod y cleifion wedi cytuno a llofnodi'r cynllun gofal a thriniaeth.</p>	<p>Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl</p>	<p>Yr Uwch Nyrs i gynnal archwiliad o gynlluniau gofal a thriniaeth a chadw cofnodion.</p>	<p>Uwch Nyrs ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Hŷn</p>	<p>Gorffennaf 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau o alluedd cleifion eu dogfennu'n llawn yng nghofnodion y cleifion.</p>		<p>Cyflwyno rhaglen hyfforddi ar gyfer cadw cofnodion a chynlluniau gofal a thriniaeth gan Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.</p> <p>Anfon hysbysiad i'r holl staff ynghylch y cyfrifoldebau a'r safonau sydd ynghlwm wrth gynlluniau gofal a thriniaeth ac wrth ymgysylltu â chleifion a gofalwyr. Bydd gan yr holl gleifion gopi o'u cynllun gofal.</p> <p>Mae'r polisi cynllun gofal a thriniaeth dan adolygiad gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.</p>	<p>Uwch Nyrs ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Hŷn</p> <p>Uwch Nyrs ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Hŷn</p> <p>Arweinydd Clinigol ar gyfer Ansawdd a Diogelwch (Iechyd Meddwl)</p>	<p>Cwblhawyd Mai 2017</p> <p>Cwblhawyd Mai 2017</p> <p>Medi 2017</p>
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn deall yn glir lle y gallent weld y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol.</p>	<p>Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p>	<p>Ar ôl y broses derfynol o symud yr holl wasanaethau iechyd meddwl yn ôl, mae'r holl staff wedi cael eu hysbysu am</p>	<p>Arweinydd Clinigol ar gyfer Ansawdd a</p>	<p>Cwblhawyd Mehefin 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu AGIC â chynllun gweithredu'n nodi pryd y bydd yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau ar waith yn cael eu hintegreiddio'n llawn i ddogfennau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.</p>		<p>fynediad at bolisïau a gweithdrefnau. Mae'r rhain ar gael ar y we.</p> <p>Sefydlwyd Grŵp Polisi a Dogfennaeth Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ym mis Ionawr 2016.</p> <p>Mae'r strwythur arweinyddiaeth bellach wedi'i gwblhau a recriwtiaid Pennaeth Nyrsio Iechyd Meddwl, Pennaeth Gweithrediadau, ac Arweinydd Clinigol ar gyfer Ansawdd a Diogelwch.</p> <p>Mae'r polisïau hanfodol wedi cael eu blaenoriaethu a'u cadarnhau. Caiff polisïau a gweithdrefnau ar draws Powys eu cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2017.</p>	<p>Diogelwch (Iechyd Meddwl)</p> <p>Pennaeth Nyrsio Iechyd Meddwl</p> <p>Pennaeth Nyrsio Iechyd Meddwl</p>	<p>Rhagfyr 2017</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn derbyn arfarniadau blynyddol.</p>	<p>7.1 Y gweithlu</p>	<p>Cynllun gwella ar gyfer hyfforddiant gorfodol a Gwerthuso ac Adolygu Datblygiad Personol wedi'u datblygu ac</p>	<p>Prif Nyrs y Ward Uwch Nyrs ar gyfer Iechyd</p>	<p>Medi 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant gorfodol mewn modd amserol.		maent wrthi'n cael eu gweithredu.	Meddwl Pobl Hŷn	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolwyr y gwasanaeth

Enwau (llythrennau bras):

**Arweinydd Gweithredol:
ac Iechyd Meddwl**

Alan Lawrie – Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedau

**Arweinydd Gweithrediadau:
Anabledd Dysgu**

Joy Garfitt – Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Iechyd Meddwl ac

Arweinydd Clinigol:

Michelle Forkings – Pennaeth Nyrsio, Iechyd Meddwl

Swydd: Fel uchod

Dyddiad: 21 Mehefin 2017